

Stori Avril a Gareth

Mae'n nos lau ac mae 3 merch ifanc yn dod atom i aros dros nos!

Wrth gyrraedd mewn tacsï o'r ysgol bydd y merched yn eithaf cyffrous ynghylch eu 'hwylnos', fel maen nhw'n galw'r peth. Â phob parch, yn ôl pob tebyg ni fydden nhw'n aros dros nos gyda'u cyfoedion gan fod anghenion unigol arbennig iawn gan bob un ohonyn nhw. Mae gan un plentyn barlys cerebrol sy'n achosi epilepsi, anawsterau iaith a lleferydd, ac anawsterau echddygol a symudedd amlwg.

Rydym yn ystyried ein hunain yn deulu estynedig i'w rhai nhw eu hunain, ac rydym yn cynnig rhywle hapus iddyn nhw ddod i aros a mwynhau. Mae'r merched yn rhoi boddhad inni hefyd, ac er bod y sesiynau'n gallu bod yn flinedig iawn ar adegau, mae'n werth yr ymdrech yn bendant gan fod y merched yn gwerthfawrogi'r amser rydym yn ei dreulio gyda nhw. Mae gen i ferch 20 oed y maen nhw'n dwlu arni, ac maen nhw wrth eu bodd pan fydd hi'n gwneud eu gwallt neu'n paentio eu hewinedd. Rydym ni'n hoffi gwneud amrywiaeth o weithgareddau megis coginio, dawnsio, gwneud crefftau, chwarae gêm, a mynd i leoedd fel y sinema neu'r theatr, yn ogystal â mynd am dro o amgylch y pentref ac i'r parc.

Drwy lwc maen nhw i gyd yn cysgu'n eithaf da (efallai fy mod yn eu blino'n lân!) ac yn cyd-dynnu'n wych, sy'n fonws. Hefyd maen nhw'n bwyta'n dda iawn! Mae'n braf eu bod nhw'n gwerthfawrogi fy nghoginio.

Mae'r boreau braidd yn hectig ac rwy'n fy nghanmol fy hun yn aml am lwyddo i gael y 3 merch yn barod ar gyfer y tacsï ysgol a chyrraedd y gwaith fy hun erbyn 9a.m.

Bellach mae'r merched wedi bod yn dod draw yma ers 7 mlynedd, ac rydym ni wedi eu gweld yn tyfu lan i fod yn ferched ifanc hyfryd. Mae'n rhoi llawer o foddhad inni ac rydym yn teimlo eu bod wedi ychwanegu at ein bywydau ni. Yn bendant maen nhw'n rhan fawr o fywyd ein teulu ni, ac rydym yn ymfalchïo ein bod yn gallu cynnig gwasanaeth o'r fath i blant sy'n gallu elwa ar seibiannau byr. Mae'n rhoi cyfle iddyn nhw fod yn annibynnol a phrofi gwahanol bethau heb fod yng nghwmni eu teuluoedd eu hunain. Yn sgil hynny, mae eu teuluoedd yn cael amser gyda'i gilydd a chyfle haeddiannol i orffwys am ychydig.

Avril



*Avril, Gareth a'u ferch
Catria....*